Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

## Ymgynghoriad ar flaenraglen waith dair blynedd

Rwyf yn ymgynghori ar raglen waith dair blynedd. Am y tro cyntaf, ceir ymgynghoriad sengl ar draws pob un o'm hastudiaethau cenedlaethol: sef, astudiaethau llywodraeth ganol a thrawsbynciol, astudiaethau llywodraeth leol a'r gwaith archwilio lleol rwyf yn cynllunio ymgymryd ag ef ar draws holl gyrff perthnasol y GIG. Mae'r Atodiad sydd ynghlwm yn amlinellu testunau posibl i'w cynnwys yn fy rhaglen waith rhwng 2019–20 a 2021–22. Gwnaeth ein Cynllun Blynyddol 2018-19 amlinellu'r gwaith cenedlaethol sydd eisoes ar y gweill, y mae rhai ohono wedi'i gwblhau'n ddiweddar.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad cyhoeddus – *Dweud eich Dweud ar ein Harchwiliadau* – a gynhaliwyd dros yr haf, rwyf wedi dewis testunau a fydd yn helpu i gyflawni nod strategol Swyddfa Archwilio Cymru: bod pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth. Hon yw fy rhaglen waith gyntaf fel Archwilydd Cyffredinol ac rwyf yn awyddus i sicrhau ei bod yn cynnwys y prif faterion sy'n gwynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, yn ogystal â'n galluogi i gynnig sylwebaeth fanwl ar lywodraethu, rheolaeth a chyflawni gwasnaethau. Mae'r cynigion wedi'u hangori wrth y themâu canlynol, sydd wedi'u hanelu at ddarparu ymdriniaeth gytbwys o destunau newydd ochr yn ochr â'r gwaith dilynol parhaus:

- Risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, megis cyni, newid demograffig, Brexit, trawsffurfio gwasanaethau cyhoeddus a digidol.
- Llywodraethu a rheoli cyrff cyhoeddus Cymru.
- Cyflawni rhaglenni a  phrosiectau allweddol a darparu gwasanaethau allweddol.

Er mwyn hwyluso gwneud sylwadau, rwyf wedi rhannu fy rhaglen yn dri chategori cyffredinol yn ymwneud â thestunau llywodraeth ganolog a thrawsbynciol, iechyd a llywodraeth leol. Ar gyfer pob sector, rwyf wedi cynnwys mwy o destunau astudiaeth posibl nag y gallwn eu cyflawni ac rwy'n ymwybodol y gallai fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y cynigion. Byddaf yn defnyddio eich safbwyntiau i'm helpu i flaenoriaethu a datblygu rhaglen waith derfynol sy'n gytbwys, yn berthnasol, yn cael effaith ac yn ystyried materion trawsbynciol. Byddaf hefyd, wrth gwrs, yn sicrhau hyblygrwydd o fewn y rhaglen er mwyn ymateb i unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu heb eu rhagweld dros y tair blynedd nesaf.


Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu Saesneg | Please contact us in Welsh or English.

Yn ogystal â thestunau penodol ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol, efallai y byddwch chi hefyd eisiau bod yn ymwybodol fy mod yn ystyried newidiadau o ran y ffordd rydym yn ymgymryd â'n gwaith a natur ein hadroddiadau ac allbynnau. Rwyf yn awyddus i lunio adroddiadau byrrach, miniocach, gwneud mwy o ddefnydd o ddadansoddi data, cyhoeddi mwy o sylwadau mewn amser real ar y materion mawr sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus a defnyddio cyfryngau gwahanol i rannu ein negeseuon.

## Astudiaethau llywodraeth ganolog a thrawsbynciol

Ar gyfer 2019–20, rwyf wedi gosod yr opsiynau a ffefrir gennyf ar gyfer gwaith gwerth am arian, wedi'i ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru. Er bod y rhain yn opsiynau a ffefrir gennyf ar gyfer y flwyddyn honno, byddwn i wir yn croesawu eich safbwyntiau ar flaenoriaethau o fewn y rhestr honno. Ar gyfer 2020–21 a 2021–22, rwyf wedi nodi rhestr hir o destunau posibl y byddwn i'n croesawu eich safbwyntiau arnynt. Caiff y cynigion hyn eu cyflawni ochr yn ochr â gwaith dilynol ar astudiaethau blaenorol. Hefyd, rwyf wedi dechrau rhaglen waith ar y paratoadau ar gyfer Brexit sydd eisoes ar waith, a hwyrach y byddaf yn ei hehangu yn y misoedd sydd i'w dod i ymateb i'r materion sy'n deillio ohoni.

## Astudiaethau cysylltiedig ag iechyd

Mae cynlluniau ar gyfer fy rhaglen waith lleol gyda chyrff y GIG yn 2019 eisoes yn mynd rhagddynt yn dda ac maent yn cynnwys gwaith i gyflawni fy nyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ochr yn ochr â'm gwaith asesu strwythuredig blynyddol. Bydd yr olaf yn cynnwys adolygiad penodol o'r trefniadau llywodraethu sy'n sail i bwyllgorau ansawdd a diogelwch mewn cyrff y GIG, o ystyried yr heriau a wynebwyd yn y maes hwn yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Gallai'r astudiaethau a ddangosir gael eu hariannu a'u cyflawni mewn nifer o ffyrdd a byddaf yn penderfynu ar y dull gweithredu gorau ar gyfer pob testun wrth gwblhau'r rhaglen. Noder ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol y byddwn fel arfer yn edrych i gynnwys uchafswm o ddau adolygiad thematig yn fy nghynlluniau archwilio lleol ochr yn ochr â gwaith asesu strwythuredig. Gallai'r adolygiadau thematig hynny gynnwys dilyn testunau rwyf eisoes wedi eu harchwilio.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Er y gallai rhai o'r testunau a amlinellwyd yn fy rhaglen genedlaethol gwerth am arian gwmpasu agweddau ar lywodraeth leol, mae gennyf raglen astudiaeth genedlaethol benodol sy'n cwmpasu llywodraeth leol. Mae'r Atodiad yn cynnwys rhestr o destunau arfaethedig dros y tair blynedd o 2019–20 hyd at 2021–22. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r her o weithio gyda llai o arian ac ar wasanaethau a/neu faterion penodol i destun y mae awdurdodau lleol ac eraill wedi'u nodi fel risgiau sylweddol neu pan fo cyfleoedd yn bodoli i wella perfformiad, effeithlonrwydd, y defnydd o adnoddau a'r effaith ar ddinasyddion.

Yn gywir

**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**


Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu Saesneg | Please contact us in Welsh or English.